**ATODIAD 1**

**Cynigion Datblygu Mawr – Protocol Cyfathrebu Cynllunio**

**a) <u>Swyddogion ac Aelodau Etholedig</u>**

Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael gwybod am gynigion datblygu mawr a fydd yn effeithio ar eu cymunedau ac etholwyr.

Fe luniwyd y protocol hwn i gynorthwyo aelodau etholedig a swyddogion trwy osod egwyddorion cyfathrebu clir ar gyfer y broses datblygiadau mawr. Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o Brotocolau Cyfathrebu a nodwyd gan y tîm Rheoli, Datblygu a Chydymffurfio a luniwyd i annog tryloywder yn y broses ddatblygu ac i reoli disgwyliadau.

Mae yna nifer o gamau yn y broses ddatblygu ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

**<u>Cyn cyflwyno Cais Cynllunio – Cyn Ymgeisio</u>**

Gall datblygwr geisio cyfraniad ar gynnig ei dd/datblygiad mawr cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol.

**Y Broses Anffurfiol**

Yn achlysurol bydd ymgeiswyr yn ceisio cael trafodaethau anffurfiol gyda'r adran Gynllunio a swyddogion eraill cyn y broses **ffurfiol** cyn ymgeisio. Yn aml mae'r trafodaethau yma yn digwydd yn ystod cam cynnar iawn yn y broses ddatblygu ac efallai nad yw'r cynlluniau wedi cael eu hystyried yn llawn. Efallai bod datblygwyr eisiau cadw eu cynlluniau yn gyfrinachol ar hyn o bryd. Trwy drafodaethau gyda'r datblygwyr, bydd Swyddogion yn sefydlu'r dull mwyaf priodol o gyfathrebu gwybodaeth berthnasol i aelodau etholedig. (gweler y tabl Canllaw Cyflym isod)

**Y Broses Ffurfiol**

Ers mis Mawrth 2016, mae'n orfodol gan Lywodraeth Cymru bod pob cynnig datblygiad mawr yn dilyn proses **ymgynghoriad cyn ymgeisio** statudol.

Mae hyn yn gorfodi datblygwyr i gynnal eu proses ymgynghori eu hunain (ddim drwy'r Cyngor) cyn cyflwyno eu cais cynllunio. Gall hyn gynnwys ymgynghori â phreswylwyr lleol, y cyngor dinas/tref/cymuned leol, cyrff arbenigol megis Cyfoeth Naturiol Cymru ac **aelodau etholedig lleol**.

***Noder*** *– Nid oes yna ofyniad i ddatblygwyr ymgynghori â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhan o'r broses hon. Felly mae yna bosibilrwydd y gallai aelodau lleol fod yn ymwybodol o'r cynigion cyn swyddogion.*

- Petai aelodau etholedig angen cymorth cyffredinol gan Swyddogion yn ystod y cam yma, fe ddylent gysylltu â'r tîm Rheoli, Datblygu a Chydymffurfio trwy anfon neges e-bost i cynllunio@sirddinbych.gov.uk <mailto:cynllunio@sirddinbych.gov.uk> neu ffonio 01824 706727.

Os oes aelodau etholedig sylwadau penodol am y cynnig datblygiad mawr yn ystod y cam yma (gan gofio i beidio dangos unrhyw arwydd o gefnogaeth neu wrthwynebiad i'r cynllun), dylent eu cyfeirio yn **uniongyrchol at yr ymgeisydd**. Wedi'u cynnwys yn y dogfennau ymgynghori a fydd yn cael eu llunio gan yr ymgeisydd, bydd manylion o ble i anfon sylwadau.

**<u>Unwaith y bydd Cais Cynllunio wedi cael ei gyflwyno</u>**

Bydd pob aelod etholedig yn derbyn e-bost wythnosol sydd yn cynnwys rhestr o'r holl geisiadau cynllunio y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'u derbyn. Mae'n bwysig bod pob aelod yn gwirio'r

rhestr hon ac yn mynd ar-lein ac yn **darllen y dogfennau cais** trwy deipio'r cyfeirif perthnasol os ydynt yn dymuno ymgyfarwyddo â'r dogfennau.

Pan dderbynnir **cais datblygiad mawr**, bydd Aelodau lleol yn derbyn e-bost penodol sydd yn cynnwys disgrifiad o'r cynnig, y dyddiad y daw'r cais i ben a manylion sut i gysylltu â'r Swyddog Achos. Y swyddog achos fydd y pwynt cyswllt i Aelodau trwy gydol y cais cynllunio. Dylai aelodau osgoi cysylltu â Swyddogion eraill yn y tîm, y Gwasanaeth neu'r Cyngor cyn iddynt siarad â'r Swyddog Achos.

Os ydi'r broses cyn ymgeisio **ffurfiol** a ddisgrifiwyd uchod wedi gweithio, dylai'r aelodau lleol eisoes fod yn ymwybodol o'r cynllun a gyflwynwyd.

Os bydd Aelod lleol yn dymuno trefnu cyfarfod cychwynnol gyda'r swyddog achos i drafod y cais gallant wneud hynny, fodd bynnag bydd angen sefydlu'r fantais o gynnal cyfarfod mor fuan.

Bydd y swyddog achos yn darparu **Diweddariad Cyntaf Aelodau** i'r Aelod(au) perthnasol o fewn **4 wythnos** ar ôl iddynt dderbyn yr e-bost cychwynnol. (Gweler y Tabl Canllaw Cyflym)

Os oes angen, bydd y Swyddog achos yn rhoi **Ail Ddiweddariad Aelodau** i'r Aelod(au) perthnasol os bydd y cynllun wedi cael ei ddiwygio.

***Noder*** *– Mae'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn rhoi hawl i aelodau lleol 'alw i mewn' unrhyw gais i'r Pwyllgor Cynllunio. Gweler y Cynllun Dirprwyo presennol ynghlwm.*

**Grŵp Cynllunio Strategol**

Ar gyfer ceisiadau pan fo yna oblygiadau mwy eang na rhai lleol, fe all fod yn briodol i drafod y cynigion yn y Grŵp Cynllunio Strategol. Gall aelodau neu swyddogion ofyn i eitemau penodol gael eu trafod yn y fforwm hwn. Cadeirydd y grŵp fydd yn penderfynu a fydd cais yn cael ei drafod.

**Rhyddhau Rhestr Posibilrwydd**

3 wythnos cyn Pwyllgor Cynllunio bydd rhestr o geisiadau posibl a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio yn cael ei anfon ar e-bost at bob aelod. Os oes yna ymholiadau am eitemau posibl sydd heb gael eu trafod yn y camau blaenorol, dylid cysylltu â'r swyddog achos neu dylid anfon e-bost i cynllunio@sirddinbych.gov.uk.

**Pwyllgor Cynllunio**

Ar ddiwrnod y Pwyllgor Cynllunio, bydd swyddogion ar gael yn Neuadd y Sir o tua 8.30am i roi cyngor am eitemau ar yr agenda yn syth cyn y cyfarfod. Mae hyn yn gyfle i gael eglurhad ar faterion penodol i arbed amser Aelodau a Swyddogion yn y cyfarfod. Bydd swyddogion yn annog defnyddio'r fforwm gan ei fod yn aml yn gyfle i fynd i'r afael â materion cyn cychwyn ffurfiol y cyfarfod.

**Canllaw Cyflym**

| Cam | Gweithred Aelodau | Gweithred swyddogion |
|---|---|---|
| Cyn Ymgeisio Anffurfiol | Os ceir cyswllt uniongyrchol gan y datblygwr, cysylltwch â cynllunio@sirddinbych.gov.uk neu ffoniwch 01824 706727 os bydd angen cymorth. | Gwahodd aelodau perthnasol i fynychu cyfarfodydd cyn ymgeisio pan fo'n briodol/angenrheidiol. |
| Cyn Ymgeisio Ffurfiol | Cysylltwch â cynllunio@sirddinbych.gov.uk | Rhoi cyngor perthnasol i aelodau pan ofynnir. |

| | | |
|---|---|---|
| | os byddwch angen cymorth. Cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cynigion yn uniongyrchol i'r ymgeisydd trwy eu manylion cysylltu. | |
| Cais wedi'i gyflwyno | Derbyn e-bost cychwynnol gan yr adran gynllunio, gwirio dogfennau ar-lein.<br><br>Cysylltu â'r swyddog achos ar gyfer trafodaeth/cyfarfod cychwynnol a gosod protocol cyfathrebu y cytunir arno.<br><br>Pan fyddant o blaid 'galw cais i mewn' i'r Pwyllgor Cynllunio, gofyn ar ôl Diweddariad Cyntaf Aelodau* neu cyn 6 wythnos o ddyddiad yr e-bost cychwynnol.<br><br>Pan fyddant o blaid 'galw cais i mewn' i'r Grŵp Cynllunio Strategol, gofyn o fewn 3 wythnos o ddyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp. | Anfon hysbysiad e-bost cychwynnol sydd yn cynnwys manylion y cais a'r swyddog achos.<br><br>Cynnal trafodaeth/cyfarfod cychwynnol gydag Aelod(au) lleol.<br><br>Anfon Diweddariad Cyntaf Aelodau* o fewn 4 wythnos o'r hysbysiad cychwynnol.<br><br>Egluro unrhyw gais 'galw i mewn' gydag Aelod(au).<br><br>Pan fyddant o blaid 'galw cais i mewn' i'r Grŵp Cynllunio Strategol, gofyn o fewn 3 wythnos o ddyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp. |
| Grŵp Cynllunio Strategol** | Mynychu Grŵp Cynllunio Strategol os oes angen. | Paratoi adroddiad ffeithiol i'r Grŵp Cynllunio Strategol a mynychu pan fo angen. |
| Rhyddhau Rhestr Posibilrwydd i'r Pwyllgor Cynllunio | Cysylltu â swyddog achos i drafod yr achos ymhellach, os oes angen. | Cynnig cyngor i aelodau fel y bo'n briodol. |
| Pwyllgor Cynllunio | Trafod unrhyw faterion munud olaf yn ymwneud ag eitemau ar y rhaglen gydag Uwch Swyddog/ Cadeirydd o 8.30am yn Neuadd y Sir ar ddiwrnod y Pwyllgor. | Bod ar gael o 8.30am yn Neuadd y Sir i ateb ymholiadau. |
| Apeliadau Cynllunio | Gweler Protocol ar wahân "Cyfranogiad Aelodau mewn Apeliadau Cynllunio". | |
| Newidiadau i Gynllun Cymeradwy | Derbyn e-bost gan swyddog achos am gais diwygiad ansylweddol*** | Rhoi gwybod i Aelod(au) lleol am unrhyw gais diwygiad ansylweddol a thrafod yr ymagwedd. |

***Bydd Diweddariad Cyntaf Aelodau yn cynnwys rhestr gryno o ymatebion i'r ymgynghoriad a sylwadau ar geisiadau a dderbyniwyd hyd yn hyn, asesiad cyntaf swyddog o ystyriaethau cynllunio perthnasol ac argymhellion tebygol, os oes modd cadarnhau hyn yn ystod y cam yma. **Grŵp Cynllunio Strategol – manylion i'w cadarnhau**

*****Cais Diwygiad Ansylweddol – ceisiadau ffurfiol yw'r rhain sydd yn ceisio diwygiadau bychan i gynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol.**